# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 20 Tachwedd 2012** |
| Amser: | **09:34 - 10:53** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_20_11_2012&t=0&l=cy**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Joyce Watson**<br>**Elin Jones** |
| Tystion: | **Lesley Griffiths**<br>**Grant Duncan, Llywodraeth Cymru**<br>**Chris Jones, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Naomi Stocks (Clerc)**<br>**Sarita Marshall (Dirprwy Glerc)**<br>**Victoria Paris (Ymchwilydd)**<br>**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Ni chafwyd ymddiheuriadau.
Croesawodd y Cadeirydd Aelodau o Senedd yr Alban, a oedd yn gwylio'r cyfarfod o'r oriel gyhoeddus.

## 2. Deisebau newydd

### 2.1 P-04-437 Gwrthwynebu cofrestru gorfodol ar gyfer plant sy'n derbyn addysg yn y cartref

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau er mwyn cael ei farn, gan amlygu pryderon penodol y deisebwyr.

### 2.2 P-04-438 Hygyrchedd wrth Siopa

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd i:
Ysgrifennu at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i gael ei farn;

Ysgrifennu at Brif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ofyn a yw awdurdodau lleol yn cydymffurfio â chanllawiau'r Adran Drafnidiaeth i barcio hygyrch.

## 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-04-425: Tîm Cymru

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan y Prif Weinidog yn ymwneud â'r ddeiseb hon, a chytunodd i gau'r ddeiseb yn sgil yr ymateb hwn, sy'n nodi y byddai angen newid cyfansoddiadol cyn y gallai'r Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol ystyried sefydlu tîm ar wahân i Gymru.

### 3.2 P-03-294 Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru

Datganodd Joyce Watson fuddiant, ar sail y faith yr arferai reoli Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru.
Yn sgîl yr ohebiaeth a gafwyd eisoes gan y Gweinidog, a'r diffyg ymateb gan y deisebwr, cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb.

### 3.3 P-04-345 Cysylltiadau bws a rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin

Cytunodd y Pwyllgor i ystyried y ddwy ddeiseb a gafwyd ar y pwnc hwn gyda'i gilydd, ac i aros am ymateb y Gweinidog i'r ddeiseb ddiweddaraf.

### 3.4 P-04-409 Enwau Cymraeg i bob cefnffordd newydd yng Nghymru
### 3.5

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth sy'n ymwneud â'r ddeiseb hon.
Datganodd William Powell, y Cadeirydd, fuddiant gan ei fod yn ymwneud â'r gwaith o hyrwyddo ailenwi rhan o'r A470 yn 'Royal Welsh Way'.
Cytunodd y Pwyllgor i geisio barn y deisebwr yn ffurfiol am yr ohebiaeth a gafwyd gan y Gweinidog.

### 3.6 P-04-390 Dynodi Gwarchodfa Natur Penrhos Caergybi (parc arfordir) yn Warchodfa Natur Genedlaethol
### 3.7

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a gafwyd yn ymwneud â'r mater hwn a chytunodd i:
Ysgrifennu at Gyngor Cefn Gwlad Cymru i amlygu pryderon y deisebwyr a gofyn am gyngor ar ddulliau y gallai'r deisebwyr eu mabwysiadu i ddiogelu'r ardal;
Ysgrifennu at Gyngor Sir Ynys Môn i amlygu pryderon y deisebwyr.

### 3.8 P-04-349 Darpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg - Caerffili

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb.

### 3.9 P-03-236 Siarter i Wyrion ac Wyresau

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb hon a chytunodd i ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ofyn a fyddai'n ystyried y materion a godwyd gan y ddeiseb, ac i ofyn bod y deisebwyr yn cael eu cynnwys mewn unrhyw ymgynghoriad ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol.

### 3.10 P-04-366 Cau canolfan ddydd Aberystwyth
### 3.11

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb hon a chytunodd i ysgrifennu at Gyngor Sir Ceredigion i ofyn am fanylion yr adolygiad a gynhelir a gaiff ei ddilysu yn allanol, ac i godi materion eraill a godwyd gan y deisebwyr.

**3.12 P-04-375 Rhoi Terfyn ar System Eithrio ar gyfer Rhoi Organnau**

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb.

Gohiriwyd y Pwyllgor rhwng 10.03 a.m. a 10.27 a.m.

## 4. P-03-150 Safonau Canser Cenedlaethol - Sesiwn dystiolaeth lafar

Atebodd y Gweinidog gwestiynau aelodau'r Pwyllgor ar y Safonau Canser Cenedlaethol, y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Canser a phrofiad cleifion.

**TRAWSGRIFIAD**

Trawsgrifiad o'r cyfarfod